

## JENKINS, JOHN ('Ifor Ceri'; 1770 - 1829), clerigwr a hynafiaethydd

**Enw:** John Jenkins  
**Ffugenw:** Ifor Ceri  
**Dyddiad geni:** 1770  
**Dyddiad marw:** 1829  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** clerigwr a hynafiaethydd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd  
**Awdur:** David Gwenallt Jones

Ganwyd 8 Ebrill 1770 mewn fferm o'r, enw Cil-bronnau, plwyf Llangoedmor, Sir Aberteifi. Cafodd addysg mewn ysgol gerllaw; yna aeth i academi Caerfyrddin, ac oddi yno i Goleg Iesu, Rhydychen, a symud oddi yno i Goleg Merton, lle y cafodd ei B.A. yn 1791; yr un flwyddyn urddwyd ef yn ddiakon ac aeth yn gurad tan ei ewythr, y Dr. Lewis, rheithor Whippingham, Ynys Wyth. Yn 1799 aeth yn gaplan ar long ryfel, yr 'Agincourt,' yn y West Indies, ac o honno i long arall, 'Theseus.' Daeth adref i adfer ei iechyd, ac wedi iddo wella, gwnaed ef yn rheithor eglwys Maenor Deifi, Sir Benfro, ac, yn 1807, yn ficer plwyf Ceri, Sir Drefaldwyn, gan **Thomas Burgess**, esgob Tyddewi. Bu farw 20 Tachwedd 1829.

Adeiladodd bersondy newydd yng Ngheri, a galwyd ef gan y beirdd yn ' Llys Ifor Hael,' canys yr wythnos gyntaf bob blwyddyn yr oedd ei dŷ yn agored i ' bawb a'i cyrchai, os medrai gyfansoddi englyn, lleisio tŷn, neu gyweiriaw telyn.' Yn Awst 1818, daeth yr **esgob Burgess** i Geri, a phenderfynodd y ddau ' roddi ymgais i ail ennyn dawn ac athrylith farddonol y dywysogaeth ... trwy gynnal eisteddfodau cylchynol drwy y pedair talaith. ' Cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf yng ngwesty yr Ivy Bush, Caerfyrddin, ar yr wythfed a'r nawfed o Orffennaf 1819. Dyna gychwyn yr eisteddfod daleithiol. Bu ' Ifor Ceri ' yn gyfarwyddwr ymhob un o'r eisteddfodau hyn tan eisteddfod Dinbych, 1829, a gwelodd eu bod yn raddol yn troi yn Saesneg, yn ' Anglo-Italian farce.'

Ysgrifennodd erthyglau yn *The Cambrian Quarterly Magazine* a'r *Gwyliedydd*. Y mae ei lawysgrifau yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ei brif ddi-ddordeb oedd casglu hen geinciau a hen donau, a chyhoeddodd **Jane Williams**, Aberpergwm, rai ohonynt yn *Ancient Welsh Music* a ' **Bardd Alaw** ' lawer ohonynt yn ei *Welsh Harper*.

### Awdur

**David Gwenallt Jones**, (1899 - 1968)

### Ffynonellau

*Cambrian Quarterly Magazine* (1829â€“33), ii, 88

*Y Gwyliedydd*, Tachwedd 1831

Archifau LIGC: **NLW MSS 1641-1952**

*Y Cymmrodor*, 1951

### Darllen Pellach

John Jenkins, **NLW MS 1940iA**: Melus-seiniau Cymru

John Jenkins, **NLW MS 1940iiA**: Per-seiniau Cymru

John Jenkins, Dr J. Lloyd Williams Music MSS and Papers AH2/13/1: Ifor Ceri Manuscripts: Music manuscript book 1

John Jenkins, Dr J. Lloyd Williams Music MSS and Papers AH2/13/2: Ifor Ceri Manuscripts: Music manuscript book 2

John Jenkins, Dr J. Lloyd Williams Music MSS and Papers AH2/13/3: Ifor Ceri Manuscripts: Music manuscript book 3

John Jenkins, Dr J. Lloyd Williams Music MSS and Papers AH2/13/4: Ifor Ceri Manuscripts: Music manuscript book 4

John Jenkins, Dr J. Lloyd Williams Music MSS and Papers AH2/13/5: Ifor Ceri Manuscripts: Music manuscript book 5

John Jenkins, Dr J. Lloyd Williams Music MSS and Papers AH1/34: Melus geingciau Deheubarth Cymru

Leila Salisbury, 'Jenkins, John (Ifor Ceri; 1770-1829)', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), tt.267-68

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 48999344

Wikidata: Q6241779

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Jones, D. G., (1953). JENKINS, JOHN ('Ifor Ceri'; 1770 - 1829), clerigwr a hynafiaethydd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JENK-JOH-1770>

Cyflwyniad

Preifatrwydd a Chwci  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiwydian  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government